| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Gorffennaf 17eg 2018 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli AHNE |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog AHNE Llŷn |
| **GWEITHREDIAD** | Dim |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Yn ystod 2015-17 bu gwaith yn mynd ymlaen ar adolygu Cynllun Rheoli yr AHNE. Roedd yn ofynnol i adolygu'r Cynllun er cydymffurfio â chyfrifoldebau Cyngor Gwynedd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ("Crow Act") 2000.

1.2 Yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar Ragfyr yr 20fed 2017 rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a phenderfynwyd ar y newidiadau terfynol i'w gwneud.

## 2.0 MABWYSIADU

2.1 Ymgorfforwyd y newidiadau olaf i'r Cynllun ddechrau'r flwyddyn. Yna roedd angen i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn ffurfiol gan Gyngor Gwynedd (gan mai ar yr Awdurdod mae'r cyfrifoldeb i gynhyrchu a chyhoeddi'r Cynllun). Roedd yn bosib gwneud hynny trwy drefn ddirprwyedig yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn hytrach nag adrodd i bwyllgor.

2.2 Yn dilyn hyn roedd angen cynnwys lluniau, sicrhau cywirdeb a phrawf ddarllen y Cynllun cyn ei anfon i'r argraffdy. Bydd nifer cyfyngedig o gopïau caled o'r Cynllun yn cael eu cyhoeddi a bydd fersiwn electronig ar y we.

## 3.0 YR ADOLYGIAD NESAF

3.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cydgordio gwaith cenedlaethol ar yr AHNE, wedi dechrau paratoi canllawiau newydd ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Cynllun Rheoli.

3.2 Mae llawer wedi newid yn ddiweddar ac mae'n ymddangos y bydd rhai newidiadau i'r broses ac mae'n debygol y bydd statws y cynlluniau yn uwch. Bydd gweithdy staff yn cael ei gynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn fuan ac bydd gwybodaeth bellach ar gael yno.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth